# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 7 Mai 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13907

## 206

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.27

### 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Senedd yn 25

Dechreuodd yr eitem am 15.02

### 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Blaenoriaethau ar gyfer newid hinsawdd a materion gwledig

Dechreuodd yr eitem am 16.15

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio: Gweithio gyda llywodraeth leol i ddarparu mwy o dai fforddiadwy

Dechreuodd yr eitem am 17.06

## 6 Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol a Chymwysterau Athrawon Addysg Bellach) (Cymru) 2024

Dechreuodd yr eitem am 17.47

**NDM8565 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol a Chymwysterau Athrawon Addysg Bellach) (Cymru) 2024 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ebrill 2024.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024

Dechreuodd yr eitem am 17.50

**NDM8564 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024

yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ebrill 2024.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog

Dechreuodd yr eitem am 17.57

**NNDM8574** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i) er mwyn caniatáu i NNDM8572 a NNDM8573 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 7 Mai 2024.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân

## 8 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion – cynnig 1

Dechreuodd yr eitem am 17.58

**NNDM8572** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6 yn cytuno bod darpariaethau yn y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, sef, Cymal 16 ynghylch Cyfyngu ar gyfrifoldeb rhiant pan fo un rhiant yn lladd y llall; ystyried Cymal 17 ynghylch marwolaeth yn deillio o

gam-drin domestig a Rhan 3 a'r Atodlen gysylltiedig sy'n ymwneud ag iawndal i ddioddefwyr y sgandal gwaed heintiedig, i'r graddau y maent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn cael eu hystyried gan Senedd y Deyrnas Unedig.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mai 2023 a gosodwyd Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Ebrill 2024 a 29 Ebrill 2024 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bil Dioddefwyr a Charcharorion (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Memorandwm Rhif 2)

Ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion – cynnig 2

Dechreuodd yr eitem am 17.58

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NNDM8573** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6 yn cytuno y dylai darpariaethau yn y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, sef, Cymalau 1 i 4, 11, 26 a 27, Dioddefwyr

Ymddygiad Troseddol: Cod dioddefwyr; Cymal 15, Canllawiau ar rolau cymorth dioddefwyr penodedig; Cymalau 28 - 33 a Chymalau 35 - 39 Dioddefwyr Digwyddiadau Mawr; i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gael eu hystyried gan Senedd y Deyrnas Unedig.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mai 2023 a gosodwyd Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Ebrill 2024 a 29 Ebrill 2024 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bil Dioddefwyr a Charcharorion (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Memorandwm Rhif 2)

Ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 39 | 54 |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

## 10 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.22

## Crynodeb o Bleidleisiau

Daeth y cyfarfod i ben am 18.23

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 8 Mai 2024**